**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **C23/0916/05/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **25/10/2024** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanfrothen** |
| **Ward:** | **Glaslyn** |
| **Bwriad:** | **Cais ar gyfer defnyddio tir i storio, trin ac ailgylchu gwastraff anadweithiol/ddim yn beryglus yn deillio o'r gwaith sy'n ymwneud â Phrosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (SVIP)** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth, LL48 6HP** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **Caniatáu gydag amodau** |

## 1. Disgrifiad:

1.1. Cais yw hwn am orsaf trosglwyddo gwastraff yn Chwarel Garth i dderbyn, storio, trin a phrosesu deunyddiau anadweithiol o Brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (SVIP).

1.2. Lleolir Chwarel Garth 700m i'r gogledd o Finffordd, oddi ar gefnffordd yr A497, 1.6m i'r gorllewin o Benrhyndeudraeth a 2.8m i'r dwyrain o Borthmadog. Yn y lleoliad agosaf, mae Parc Cenedlaethol Eryri 2km i'r gogledd-ddwyrain o'r Chwarel. Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Glaslyn (SoDdGA) yn amgylchynu'r cwbl heblaw am chwarter de ddwyreiniol terfynau'r chwarel gydag ACA Coedydd Derw Meirion wedi'i leoli ar hyd y ffin orllewinol ac yn meddiannu tir i ogledd a de'r safle.

1.3. Byddai'r gweithrediadau ailgylchu gwastraff anadweithiol arfaethedig am gyfnod dros dro i gyd-fynd â'r SVIP, wedi'i leoli yn rhan de-orllewinol y chwarel, ger gweithgareddau mathru presennol a bydd yn defnyddio isadeiledd presennol (ffyrdd cludo, pont bwyso, swyddfeydd, mynediad priffyrdd).

1.4. Mae Chwarel Garth wedi bod yn weithredol ers degawdau yn cynhyrchu carreg ffordd ac asffalt manyleb uchel ac mae'n destun caniatâd cynllunio presennol ar gyfer gweithrediadau mwynau tan 2042.

1.5. Bydd y deunyddiau a fewnforiwyd yn cael eu cyfyngu i ddeunyddiau anadweithiol o'r SVIP. Mae'r SVIP yn brosiect gan y Grid Cenedlaethol gyda'r nod o leihau effaith weledol gwifrau uwchben ar draws Aber Afon Dwyryd.

Bydd rhan o wifrau uwchben 400kV rhwng Compownd Pennau Seilio (SEC) y Garth ger Minffordd a Llandecwyn/Cilfor yn cael eu disodli gan geblau wedi'u twnelu. Mae'r adeiladau pen twnnel wedi cael caniatâd ar bob pen i'r twnnel arfaethedig ac mae'r caniatadau angenrheidiol eisoes yn eu lle ar gyfer hyn. Mae'r bwriad hwn yn ymwneud â deunyddiau anadweithiol yn unig.

1.6. Mae'r cynnig wedi cael ei sgrinio yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017 ac nid oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA).

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi’i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017.**

Polisi Strategol PS 1: Yr Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig
Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 6: Lliniaru ac Addasu i Effeithiau Newid Hinsawdd Polisi Strategol
PS 13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi Ffyniannus Polisi Strategol
PS 19: Gwarchod ac/neu Wella’r Amgylchedd Naturiol Polisi Strategol

PS 21: Rheoli Gwastraff Polisi Strategol
PS 22: Polisi Mwynau Polisi
AMG 2: Ardaloedd Tirwedd Arbennig Polisi
AMG 3: Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol Polisi
AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
Polisi AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol Polisi
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi Polisi
PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu Polisi
PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu Polisi
PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr Polisi
TRA 2: Safonau Parcio Polisi
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant Polisi
GWA 1: Darparu Isadeiledd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu
Polisi MWYN 1: Diogelu Adnoddau Mwynau Polisi
MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
Polisi MWYN 9: Adfer ac Ôl-ofal

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - 2024)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cadwraeth natur a chynllunio
NCT 11: Sŵn
NCT 15: Datblygu a pherygl llifogydd
NCT 18: Cludiant

NCT 21: Gwastraff
NCT 24: Yr amgylchedd hanesyddol

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

- Cais dan Ddeddf yr Amgylchedd i benderfynu ar amodau dan Adolygiad Cyfnodol a gafodd ganiatâd ar 16/04/2018 dan gyfeirnod C16/1385/05/MW.
- Cymeradwyaeth flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Mwynau dyddiedig 10 Ionawr 2011 dan Ran 19, Dosbarth B i Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 ar gyfer Cynllun Arfaethedig Swyddfeydd Newydd, Derbynfa Chwarel ac Ardal Stocio a phyllau gwanhau i alluogi trin arllwysiad dŵr wyneb yn unol â gofynion trwydded Asiantaeth yr Amgylchedd. Angen cynllun diwygiedig gan y byddai'r ffordd osgoi arfaethedig yn torri ar draws yr ardal weithredol bresennol.
- Caniatâd cynllunio C10M/0116/05/MW wedi derbyn cymeradwyaeth ôl-weithredol ar 28 Hydref 2010 i adeiladu gwaith asffalt newydd a biniau poeth cysylltiedig.
- Caniatâd cynllunio cyf; 5/76/198C wedi'i gymeradwyo ar 4 Ebrill 1999 dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Digolledu 1999, i benderfynu ar amodau a chynllun gweithio yn unol â Chaniatâd Gorchymyn Datblygu Dros Dro '538' dyddiedig 6 Chwefror 1948.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio 5/56/76 ar gyfer ardal iard stoc, ffordd cludo chwarel a man prosesu a gwaith ategol yn amodol ar amodau ar 20 Awst 1993 ac mae'n cynnwys tair ardal A, B

a C sydd y tu allan, ond gerllaw ardal yr IDO.

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio 5/76/198B, ar gyfer adeiladu ffordd fynediad newydd yn amodol ar amodau ar 10 Medi 1992, ond ni chafodd ei weithredu erioed.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio 5/76/198 ar gyfer adeiladu labordy profi deunyddiau yn amodol ar amodau ar 10 Medi 1990.
- Tybiwyd bod gwaith asffalt newydd wedi cael ei ganiatáu ar 24 Gorffennaf 1989, dan Ddosbarth B Rhan 19 i Atodlen 3 Gorchymyn Datblygu Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1988, yn amodol ar osod amod i leihau'r niwed i fwynderau'r gymdogaeth gan gyfyngu ar oriau gwaith y gwaith.

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned Llanfrothen:

Derbyniwyd ymateb ar 17/11/2024:

Ysgrifennaf ar ran Cyngor Cymuned Llanfrothen er mwyn dweud ein bod yn cefnogi’r cais yma.

Cyngor Tref Porthmadog:

Derbyniwyd ymateb ar 13/11/2024:
Yn eu cyfarfod ar 12.11.24 bu Cyngor Tref Porthmadog yn trafod y cais cynllunio uchod. Penderfynwyd datgan DIM GWRTHWYNEBIAD.

Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Derbyniwyd ymateb ar 30/10/2024:
Dim gwrthwynebiad.

Yr Uned Drafnidiaeth:

Derbyniwyd ymateb ar 31/10/2024:
Nodaf fod y safle wedi’i leoli ar Gefnffordd yr A487, ac felly nid wyf yn bwriadu rhoi argymhelliad.

Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Uned Dŵr a'r Amgylchedd:

Derbyniwyd ymateb ar 18/11/2024:

Diolch am yr ymgynghoriad isod. Mae safle’r datblygiad o fewn parth llifogydd C2 ac oherwydd hyn fe adawn CNC i gynnig sylwadau ar faterion risg llifogydd sy’n wynebu’r datblygiad. Fel arall, nid oes gan yr uned yma sylwadau pellach i’w cynnig.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Derbyniwyd yr ail ymateb ar 12/12/2024

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar eich Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y datblygiad uchod, a dderbyniwyd ar 11/12/2024.

Wrth ystyried y mesurau lliniaru y manylir arnynt, rydym yn cytuno â'ch casgliad nad yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion.

Derbyniwyd ymateb ar 15/11/2024:

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r uchod, a dderbyniwyd gennym ar 30 Hydref 2024.

Mae gennym bryderon am y cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellid goresgyn y problemau hyn wrth gynnwys yr amod a ganlyn ar unrhyw ganiatâd a roddir:

Amod 1: Halogiad Tir

Sylwer, heb gynnwys yr amod hwn, byddwn yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Ceir rhagor o fanylion isod.

**Halogiad Tir**

Mae'r cynllun arfaethedig yn ffurfio rhan fach o safle chwarel ehangach sy'n bodoli eisoes. Ystyrir y gellid rheoli unrhyw risgiau yn briodol drwy fesurau rheoli llygredd addas. Rydym yn cynghori y dylech ond roi caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun hwn os yw'r amod a restrir isod yn cael ei atodi i unrhyw ganiatâd cynllunio.

**Amod 1:** Os, yn ystod y datblygiad, y canfyddir bod halogiad na nodwyd o'r blaen yn bresennol ar y safle, yna ni fydd unrhyw ddatblygiad pellach (oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda'r ACLl) yn cael ei gynnal nes bod strategaeth adfer sy'n manylu sut y delir â'r halogiad hwn wedi cael ei gyflwyno i'r ACLl a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y strategaeth adfer yn cael ei chyflawni fel y cymeradwyir.

**Cyfiawnhad:** Sicrhau yr ymdrinnir â'r risgiau sy'n gysylltiedig â halogiad na nodwyd o'r blaen ar y safle drwy strategaeth adfer, i leihau'r risg i ddefnyddwyr y tir a'r tir cyfagos yn y dyfodol, ac i sicrhau y gellir cyflawni'r datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell y dylai datblygwyr:

1. Ddilyn y fframwaith rheoli risg a ddarperir mewn Rheoli risg halogi Tir (LCRM);

2. Cyfeirio at 'Datblygu tir y mae halogiad yn effeithio arno: Canllaw i ddatblygwyr' (CLlLC, 2023) am y math o wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn asesu risgiau i ddyfroedd rheoledig o'r safle. Gall yr Awdurdod Lleol gynghori ar risg i dderbynyddion eraill, fel iechyd pobl;

3. Cyfeirio at gyngor amddiffyn dŵr daear ar www.gov.uk.

**Safleoedd Gwarchodedig**

**Ardal Cadwraeth Arbennig**

Mae'r cais wedi'i leoli o fewn 100m i Ardal Cadwraeth Arbennig

(ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion. O'r wybodaeth a ddarperir, rydym o'r farn y gallai'r bwriad effeithio ar y safle ACA ac rydym wedi nodi llygredd fel llwybr effaith posibl i nodweddion y safle. Fodd bynnag, rydym o'r farn na fyddai'r llwybr uchod yn arwain at effaith andwyol os yw'r datblygwr yn cadw at ganllawiau atal llygredd safonol. Rydym o'r farn nad yw'r bwriad yn debygol o effeithio ar glwydau ystlumod pedol leiaf na'u llinellau fforio/cymudo. Darperir ein cyngor ar y ddealltwriaeth nad yw'r bwriad yn cynnwys cael gwared ar unrhyw goed a'i fod ar gyfer storio deunyddiau ar ardal waith bresennol yn unig. Byddem yn gofyn am ail ymgynghoriad os nad yw hyn yn wir.

Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), eich Awdurdod chi sydd i gynnal y prawf Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Pe baech yn dod i'r casgliad bod y bwriad yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr Ardal Cadwraeth, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, rhaid gwneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw gan ystyried ei amcanion cadwraeth.

**Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried bod gan y cynigion botensial i effeithio ar SoDdGA Ysbyty Bron y Garth. Cyhyd ag yr eir i'r afael yn ddigonol â'r llwybrau effaith y cyfeirir atynt uchod ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y bydd nodweddion y SoDdGA hefyd yn cael eu diogelu'n briodol.

**Perygl Llifogydd**

Mae safle'r cais yn rhannol o fewn Parth C2 o'r Map Cyngor ar Ddatblygu (DAM) a gynhwysir yn NCT15 (2004) ac mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) yn nodi bod safle'r cais mewn perygl o lifogydd ac o fewn y Parth Llifogydd 3 Môr. Rydym wedi adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) a'r Datganiad Draenio gan Waterco (Rev. 0; 1 dyddiedig 8 Mawrth 2024) a gallwn gadarnhau bod yr FCA yn dangos bod y bwriad yn cydymffurfio â NCT15: Datblygu a Pherygl Llifogydd o ran llifogydd o afonydd a/neu'r môr. Byddwch yn ymwybodol y bydd angen i'r Corff Cymeradwyo Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol/SuDS (Cyngor Gwynedd) roi cyngor ar drefniadau rheoli dŵr wyneb. Er mwyn asesu'r perygl o lifogydd o afon Glaslyn a'r risgiau llanw o'r môr, mae'r FCA wedi defnyddio model hydrolig 2014 a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r modelu hydrolig ar gyfer yr ardal fel rhan o'n Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog, ac efallai y byddwn yn diweddaru ein mapiau llifogydd yn unol â hynny. Fodd bynnag, at ddibenion y bwriad hwn, rydym yn fodlon â'r FCA yn ei ffurf bresennol gan ei fod yn adlewyrchu'r perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â'r safle (sydd eisoes

yn elwa o ddefnydd llai agored i niwed – ffig.2 NCT15).

**Rhywogaethau a Warchodir**

Gweler ein cyngor mewn perthynas ag ystlumod uchod. Nodwn nad oes unrhyw wybodaeth am rywogaethau eraill a warchodir gyda'r cais ac, felly, rydym yn tybio bod eich Awdurdod wedi sgrinio'r cais ac wedi dod i'r casgliad nad oes tebygolrwydd rhesymol y bydd rhywogaethau gwarchodedig yn bresennol.

**Atal Llygredd**

Oherwydd bod y safle yn agos at gyrsiau dŵr, mae'n rhaid gwneud yr holl waith ar y safle yn unol â GPP5: Gwaith a gwaith cynnal a chadw mewn neu ger ddŵr, a GPP 6: Gweithio ar safleoedd adeiladu a dymchwel, sydd ar gael ar wefan NetRegs. Dylai'r holl danwydd a'r cemegau olew a ddefnyddir ar y safle gael eu cadw mewn storfa dan glo wedi'i byndio sy'n medru dal 110% o gapasiti'r tanwydd a storir. Dylid cael pecyn ar gyfer arllwysiad olew ar y safle er mwyn ymdrin ag unrhyw achos o'r fath. Dylai'r holl staff ar y safle fod yn ymwybodol o'i leoliad ac wedi eu hyfforddi i'w ddefnyddio. GPP 22: Delio â gollyngiadau. Pe bai llygredd yn digwydd, dylid hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith ar 03000 653000. Byddai hyn yn cynnwys dŵr ffo o briddoedd a gloddiwyd: GPP 21: Cynllunio ymateb i ddigwyddiadau llygredd.

**Caniatadau**

Mae trwydded SR2008 Rhif 9 eisoes mewn lle ar gyfer rheoli gwastraff anadweithiol a phridd heb ei lygru o ganlyniad i chwilio, echdynnu, trin a storio adnoddau mwynau a gweithio chwareli, mewn pyllau glo a chwareli ar y safle. Ni fyddai'r drwydded hon yn cynnwys y gweithgaredd newydd arfaethedig ac felly bydd angen cael trwydded wastraff newydd. Oherwydd lleoliad y SoDdGA a'r ACA, bydd angen iddi fod yn drwydded bwrpasol gan nad ydym yn credu y bydd y gweithredwr yn gallu cydymffurfio â'r asesiadau risg rheolau safonol.

**Materion Eraill**

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Ymgynghorol Datblygu Cynllunio: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar faterion eraill ac ni ellir diystyru'r posibilrwydd y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar fuddiannau eraill. Atgoffwn yr ymgeisydd am y ffaith mai ei gyfrifoldeb ef yw sicrhau ei fod yn cael yr holl drwyddedau/caniatadau eraill sy'n berthnasol i'w ddatblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion pellach. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r uchod, mae croeso i chi gysylltu â ni.

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru: | Ni dderbyniwyd ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Ni dderbyniwyd ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Derbyniwyd ymateb ar 03/12/2024:<br><br>Mae'r bwriad mewn chwarel bresennol a gweithredol ac ni fydd yn arwain at golli cynefin oherwydd ei fod ar lain caled presennol.<br><br>Mae'r bwriad hwn yn cynnwys ardal yn y chwarel sy'n rhan o lwybr hedfan pwysig yr ystlum bedol leiaf. Mae'n hanfodol nad yw'r gwaith yn defnyddio llifoleuadau ychwanegol ar unrhyw oleuadau allanol fyddai'n creu rhwystr i lwybrau hedfan yr ystlum bedol leiaf. Yn ystod y gwanwyn, haf a'r hydref, mae'r ystlum bedol leiaf yn actif iawn, a dylid cyfyngu'r defnydd o oleuadau ac ni ddylid eu defnyddio ar ôl i'r haul fachlud. Fe'i lleolir o fewn 100m i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, sy'n cynnwys afon Glaslyn a choedydd gwern ac ynn ar ei hyd yn ogystal â'i boblogaeth o'r Ystlum Bedol Leiaf.<br><br>Rhaid i'r datblygiad gyflwyno cynllun atal llygredd i sicrhau bod pob mesur yn cael ei gymryd i osgoi unrhyw lygredd rhag mynd i gyrsiau dŵr a'r Glaslyn.<br><br>Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gynnal y prawf Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Mae'r bwriad hwn mewn chwarel weithredol ac mae'r gwaith arfaethedig yn annhebygol o effeithio ar nodweddion yr ACA; fodd bynnag, rhaid i fesurau fod yn eu lle i sicrhau hyn megis cynllun atal llygredd a goleuadau cyfyngedig. Felly, argymhellaf yr amodau isod:<br><br>• Rhaid cyflwyno cynllun atal llygredd cyn dechrau unrhyw waith.<br>• Rhaid cyflwyno cynllun goleuo cyn i'r gwaith ddechrau. |
| Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: | Derbyniwyd ymateb ar 21/11/2024:<br>Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 30/10/2024 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod ac fe'ch cynghorwn nad yw Llywodraeth Cymru, yr awdurdod priffyrdd ar gyfer y gefn ffordd Ddiofyn, wedi cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, anfonwch nhw i Flwch Post Llywodraeth Cymru:<br><br>NorthandMidWalesDevelopmentControlMailbox@gov.wales |
| CADW: | Ni dderbyniwyd ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. |

Ymgynghoriadau Cyhoeddus: Rhoddwyd hysbysiad yn y wasg ac mewn sawl lleoliad yn agos at y safle gan roi gwybod i'r trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Yng nghyd-destun polisi gwastraff, dylid trin gwastraff mor uchel â phosib gyda thargedau'r Hierarchaeth Wastraff drwy leihau cynhyrchu gwastraff ac arallgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a'i drin mor gynaliadwy â phosib drwy ailgylchu ac ailddefnyddio lle bo hynny'n bosib. Er mwyn ceisio diwallu'r targedau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r ddogfen "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" sy'n amlinellu targedau llym ar broses gwastraff mor uchel â phosib yn unol â'r Hierarchaeth Wastraff. Yn ogystal, mae adrannau 5.11 i 5.13 o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff yn adlewyrchu nodau strategaeth wastraff genedlaethol y Llywodraeth "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.

5.2 Yn debyg iawn i bolisïau a thargedau gwastraff, rhoddir pwyslais ar bolisïau cynllunio mwynau i hyrwyddo'r defnydd o agregau eilaidd/amgen er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar agregau sylfaenol: Yn enwedig felly er mwyn bodloni gofynion safonol is megis llenwi cyffredinol lle nad oes angen agregau sylfaenol. Mae'r broses hon hefyd yn helpu i ddiogelu banc tir cerrig caled y sir a'r rhanbarth.

5.3 Dylai'r egwyddor o sefydlu cyfleuster rheoli gwastraff ganolbwyntio ar bolisi strategol PS 21: Rheoli Gwastraff, polisi GWA 1: Darparu Isadeiledd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu a GWA 2: Safleoedd Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu y CDLl ar y Cyd, PCC a NCT 21: Gwastraff.

5.4 Er nad yw'r safle yn ymddangos ym mholisi GWA 1, tir ac eiddo a ddynodwyd ar gyfer darparu isadeiledd rheoli gwastraff, mae'r polisi yn datgan ymhellach *"Yn ychwanegol i'r safleoedd uchod sydd wedi eu dynodi, gallai cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu, ac eithrio tirlenwi a chompostio mewn rhenciau agored, fod yn dderbyniol ar stadau diwydiannol, chwareli a safleoedd tir llwyd presennol. Bydd cynigion am isadeiledd rheoli gwastraff ac ailgylchu (na chânt eu cynnig ar y safleoedd dynodedig uchod) yn cael eu hasesu ar eu rhinweddau eu hunain, cyn belled â bod angen cyfiawn am y datblygiad. Dylai'r angen cyfiawn gyfeirio at yr angen lleol fel y nodir yn y Cynllun Sector Bwrdeistrefol a'r Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP). Rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd fod yn addas o ran maint a graddfa ac ni ddylai gael effaith andwyol ar y dirwedd, yr amgylchedd naturiol na mwynderau ac iechyd y boblogaeth leol. Dylai pob cynnig newydd ar gyfer cyfleusterau Rheoli Gwastraff gael Asesiad Cynllunio Gwastraff (Fel y'i diffinnir yn Atodiad B NCT 21, Gwastraff)."*

5.5 Mae'r angen am y datblygiad wedi deillio o'r siafft arfaethedig a gwaith adeiladu twnnel datblygiad SVIP y Grid Cenedlaethol. Nododd datblygiad SVIP y Grid Cenedlaethol 'Cynllun Rheoli Gwastraff Amlinellol' amcangyfrif rhagarweiniol o 243,596 tunnell o ddeunydd gwastraff a gynhyrchwyd o'r gwaith cloddio siafft a thwneli. Mae'r bwriad ar gyfer rheoli (storio, trin ac ailgylchu) y deunydd gwastraff anadweithiol a gynhyrchir gan SVIP ac ni fydd yn ymestyn i unrhyw ffynonellau eraill o ddeunydd gwastraff. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn cynnig cyfanswm ychydig yn uwch o 250,000 tunnell (i ddarparu ar gyfer unrhyw anghysondebau yn yr amcangyfrif rhagarweiniol) o ddeunydd a fewnforiwyd i'r safle ar gyfradd flynyddol o 75,000 tunnell a fyddai'n cyfateb i 3.3 blynedd. O ran natur bresennol y safle, mae'n chwarel weithredol actif (gyda chaniatâd yn ei le ar hyn o bryd tan 2042) gydag isadeiledd

chwareli presennol a mynediad uniongyrchol i Gefnffordd yr A487. Lleolir safle'r cynnig o fewn 300m a 2.5km o ffynhonnell y deunyddiau gwastraff (y ddau ben twnnel)

5.6 Yn ogystal â GWA1, rhaid i gynigion rheoli gwastraff gydymffurfio â'r meini prawf yn GWA 2: Safleoedd Rheoli Gwastraff a Dynodedig ac mae'n gofyn i gynigion gydymffurfio â'r meini prawf isod:

1. *Nid oes safleoedd dynodedig ar gael, neu maent yn anaddas ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig;*
2. *Nid oes safleoedd addas oddi mewn i'r ffin ddatblygu;*
3. *Bydd y bwriad yn ymgorffori mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd ac iechyd a mwynderau'r boblogaeth leol;*
4. *Mae graddfa a natur y bwriad yn briodol o ran y safle a'r ardal o'i amgylch;*
5. *Ni fyddai'r bwriad yn effeithio'n andwyol ar amgylchedd naturiol a gwerth treftadaeth yr ardal;*
6. *Nid yw'r datblygiad nac unrhyw draffig cysylltiedig yn arwain at aflonyddwch annerbyniol i gymunedau lleol, trwy sŵn, arogl, dirgryniad, mwg neu lygredd aer.*

*Ystyrir pob cynnig ar sail pob achos unigol, gan ystyried ffactorau yn cynnwys natur, math, maint, angen a lleoliad y datblygiad."*

5.7 Nid oes unrhyw safleoedd dynodedig yn agosach at ddatblygiad SVIP ac nid oes yr un ohonynt yng nghyffiniau'r cynnig a allai ddarparu ar gyfer y nifer o ddeunydd gwastraff a gynhyrchir o fewn ei isadeiledd presennol yn y tymor byr. Bydd y bwriad yn defnyddio'r isadeiledd presennol ac yn gweithredu dan amodau presennol a sefydledig Chwarel Garth. Bydd cyn lleied â phosib o newidiadau ffisegol i'r chwarel gan nad oes unrhyw adeiladau, peiriannau na pheiriannau sefydlog arfaethedig gyda'r datblygiad, yn ei hanfod, wedi'i gyfyngu i ffynhonnell ychwanegol o ddeunydd (gwastraff) sy'n cael ei brosesu. Ni fydd unrhyw newidiadau i fynediad y cerbyd gan fod y safle eisoes yn elwa o fynediad cerbydol presennol yn uniongyrchol i Gefnffordd yr A487.

5.8 Nid yw'r datblygiad arfaethedig ar gyfer safle rheoli gwastraff tymor hir neu barhaol, ond yn ddatrysiad tymor byr ar gyfer ailgylchu gwastraff anadweithiol sy'n deillio o brosiect adeiladu penodol.

5.9 Yn ogystal â pholisïau lleol, mae ailgylchu ac adfer hefyd yn ddatrysiad i'r problemau gwastraff tuag at ben yr hierarchaeth wastraff, a thrwy wneud y gorau o ailgylchu gwastraff anadweithiol, bydd y bwriad yn cyfrannu at dargedau'r strategaeth wastraff genedlaethol. Mae gofynion Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith cynaliadwy o gyfleusterau trin gwastraff, gan bwysleisio'r angen i ddarparu cyfleusterau i ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae polisi cynllunio cenedlaethol, yn cynnwys adrannau 5.11 i 5.13 o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff yn adlewyrchu nodau strategaeth wastraff genedlaethol y Llywodraeth "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" a'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd.

5.10 Mae paragraff 5.3.12 PCC yn nodi mai; *"cydnabod mai'r lleoliadau mwyaf priodol fydd y rhai sydd â'r effaith leiaf andwyol ar y boblogaeth leol a'r amgylchedd a gyda'r potensial gorau i gyfrannu at fframwaith isadeiledd eang."*

Fel y nodwyd uchod, bydd datblygiad y SVIP yn cynhyrchu symiau sylweddol o wastraff anadweithiol y bydd angen eu cludo i safleoedd priodol i'w rheoli. Bydd creu cyfleuster tymor byr/dros dro mewn chwarel weithredol yn bodloni'r egwyddor agosrwydd hwn ac yn ategu cyflenwad agregau presennol y safleoedd.

5.11 Mae polisïau MWYN 1: Diogelu Adnoddau Mwynau Polisi a MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o Amgylch Safleoedd Mwynau yn berthnasol ar gyfer unrhyw ddatblygiad nad yw'n fwynau yn yr ardaloedd hyn a allai beryglu neu rwystro echdynnu mwynau. Yn y senario benodol hon, byddai'r bwriad yn defnyddio'r isadeiledd presennol dros dro ar y safle mwynol er mwyn ailgylchu gwastraff anadweithiol i agregau eilaidd. Byddai ardal y safle yn gorgyffwrdd rhan o ardaloedd echdynnu’r chwarel yn y dyfodol. Mae'r datblygiad wedi'i leoli oddi wrth yr ardal(oedd) echdynnu mwynau gweithredol presennol ac nid oes angen i'r dull echdynnu fesul cam gyrraedd cornel dde-orllewinol y chwarel hyd nes y bydd ar ei gam olaf.

5.12 Bydd angen gosod amod ar y datblygiad i sicrhau bod digon o reolaeth yn cael ei gadw dros y bwriad lle mae'r defnydd yn benodol ac yn gyfyngedig i wastraff sy'n deillio o'r SVIP. Ar ben hynny, os na fydd y SVIP yn cael ei weithredu na'i ganslo, ni fydd angen y datblygiad hwn, a bydd y safle'n aros o dan delerau'r caniatâd mwynau presennol. Mae'n bwysig cyfyngu'r bwriad ar amser er mwyn peidio â gor-redeg a pheryglu'r echdynnu mwynau yn y cam olaf neu ei adfer o dan y caniatâd mwynol. Ystyrir felly y dylai unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir fod yn ddarostyngedig i'r gofynion a ganlyn:

- Mae cyfnod y caniatâd wedi ei gyfyngu i bum mlynedd (i ganiatáu unrhyw oedi yn ystod adeiladu'r SVIP) o gyflwyno rhybudd dechrau gweithgareddau sy'n cynnwys mewnforio gwastraff.
- Ni fydd unrhyw beth heblaw deunyddiau gwastraff anadweithiol a echdynnwyd o'r datblygiad SVIP, yn cael ei fewnforio i'r safle.
- Amod i sicrhau bod ailgylchu gwastraff yn dod i ben os bydd y gweithrediadau mwynau yn dod i ben. Bydd y caniatâd dros dro yn dod i ben pe cyfyd sefyllfa o weithrediadau mwynau'r chwarel yn dod i ben yn gynt er mwyn peidio cyfyngu nac oedi ar waith adfer y safle.

5.13 Dylid nodi bod cais i ddatblygu cyfleuster ailgylchu gwastraff anadweithiol yn diwallu gofynion polisïau lleol GWA 1 a GWA 2, PCC a NCT 21: Gwastraff. Er bod yr egwyddor yn dderbyniol, rhaid hefyd ystyried y rhesymau a'r materion perthnasol sy'n ymwneud â'r safle a'r ardal ehangach cyn gwneud penderfyniad ar yr achos.

**Mwynderau gweledol a'r dirwedd**

5.14 Mae ardal y cais o fewn chwarel weithredol sefydledig Garth sydd wedi'i lleoli'n union i'r gogledd o Gefnffordd yr A487 oddeutu 1.6km i'r gorllewin o Benrhyndeudraeth a 2.8km i'r dwyrain o Borthmadog. Yn union i'r gorllewin o ffin y chwarel, lleolir afon Glaslyn a'r gorlifdir. O ran dynodiad tirwedd, mae'r safle yn ei gyfanrwydd wedi’i leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Aber Glaslyn a Dwyryd a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberglaslyn. Mae polisïau PCYFF 3, AMG 2 ac AT 1 o'r CDLl ar y Cyd yn berthnasol i effeithiau gweledol a thirwedd yn y lleoliad penodol hwn.

5.15 Fel y trafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, byddai'r bwriad yn ymwneud â mân newidiadau ffisegol i'r safle. Byddai’r datblygiad yn defnyddio isadeiledd presennol mewn chwarel sefydledig gyda chaniatâd cynllunio dilys fyddai'n rhedeg y tu hwnt i'r cyfnod dros dro y gwneir cais amdano. Bydd deunydd gwastraff anadweithiol yn cael ei storio a'i brosesu/ailgylchu ger ardaloedd pentyrru cynnyrch mwynau presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd i storio sawl

gwahanol beiriannau, offer ac offer ategol i waith y chwarel. Bydd y gwastraff anadweithiol yn cael ei brosesu/ailgylchu yn defnyddio peiriannau ac offer symudol.

5.16 Ni fydd y bwriad yn arwain at unrhyw effaith weledol fyddai'n sylweddol wahanol i effaith gweithrediadau mwynau a ganiateir yn Chwarel Garth ar hyn o bryd. Gan hynny, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn effeithio'n sylweddol ar gymeriad tirwedd yr ardal o ystyried pa mor agos yw'r bwriad at y gweithfeydd chwarel presennol a hanesyddol a'r dirwedd y mae wedi'i leoli ynddi. Felly, bydd y bwriad yn cydymffurfio â gofynion polisïau cynllunio PCYFF 3, AMG 2 ac AT 1 y CDLl ar y Cyd.

**Sŵn, dirgryniad, ansawdd aer, mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.17 Mae'r eiddo preswyl agosaf i ffin y cais wedi'u lleoli 200m i'r dwyrain (Plas Newydd, Minffordd) a 200m i'r de (pentref Minffordd). O ran cynllun y chwarel, mae'r ardaloedd agosaf at eiddo preswyl yn cynnwys ardaloedd stocio cynnyrch, swyddfeydd ac unedau lles, pont bwyso, mannau parcio a mynediad cerbydau i'r A487. Mae'r ardaloedd prosesu wedi'u lleoli yn rhan orllewinol y chwarel sydd tua 450m i ffwrdd o'r eiddo preswyl agosaf.

5.18 Ar hyn o bryd, mae Chwarel y Garth yn destun llu o amodau sy'n ymwneud â sŵn, dirgryniad, ansawdd aer ac oriau gwaith. Y bwriad yw cyfyngu'r bwriad i'r un amodau gwaith i sicrhau cysondeb gyda gweithrediadau eraill yn y chwarel.

Bydd oriau gwaith yn cael eu cyfyngu i'r isod:

- 06:00 – 20:00 o'r gloch Llun i Gwe
- 06:00 – 17:00 o'r gloch Sadwrn
- 06:00 – 13:00 o'r gloch Sul (Uchafswm o 15 Dydd Sul bob blwyddyn).
- Gweithrediadau dros dro wedi'u cyfyngu i 07:00 tan 19:00 oni bai bod argyfwng.

5.19 Bydd lefelau sŵn yn cael eu cyfyngu i beidio â bod yn fwy na'r LAeq, 1 awr lefel maes rhydd a ddangosir yn Atodlen 1 (cyfnodau yn ystod y dydd a gyda'r nos). Bydd gweithrediadau dros dro, a all fod yn fwy na'r lefelau maen prawf a nodir yn Atodlen 1 uchod, yn cael eu hysbysu ymlaen llaw i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau ac ni ddylent fod yn fwy na 67 dB LAeq, 1 awr, maes rhydd am fwy na chyfanswm o wyth wythnos mewn unrhyw gyfnod o 12 mis heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau. Ar hyn o bryd, mae'r chwarel yn destun adroddiad arolwg monitro sŵn bob cyfnod o 12 mis o dan ei chaniatâd mwynol, bydd y cynnig yn ddarostyngedig i'r un gofyniad er y bydd yn ymarferol cyflwyno un adroddiad/arolwg sy'n cwmpasu pob gweithrediad.

5.20 Bydd amodau'n cael eu gosod mewn perthynas â gweithrediad arfer gorau cerbydau, planhigion, peiriannau ac offer er mwyn osgoi unrhyw sŵn diangen a thechnegau lliniaru llwch sydd eisoes yn eu lle ac yn cael eu gosod fel amod o dan ganiatâd y mwyn. Yn amodol ar yr amodau priodol, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol MWYN 3 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd.

**Materion Traffig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Comin**

5.21 Byddai'r bwriad yn defnyddio mynediad cerbydau presennol i Gefnffordd yr A487, ffyrdd cludo mewnol, pont bwyso, cyfleusterau golchi olwynion a pharcio Chwarel y Garth. Nid yw caniatâd mwynol y chwarel yn nodi unrhyw gyfyngiad ar symudiadau cerbydau ac eithrio oriau gwaith.

5.22 Byddai faint o draffig sy'n defnyddio'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn cael ei gynhyrchu waeth beth fydd canlyniad y bwriad hwn gan y bydd angen i'r datblygiad SVIP gludo gwastraff anadweithiol o'r compownd adeiladu ym Minffordd i safle rheoli gwastraff cymeradwy. Fel y soniwyd yn gynharach, bydd yr agregau eilaidd neu ailgylchedig a gynhyrchir o'r gwastraff anadweithiol a fewnforiwyd yn cael eu hallforio ochr yn ochr â chynnyrch mwynau presennol.

5.23 Derbyniwyd ymateb gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cadarnhau nad ydynt yn cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig. I'r perwyl hwn, ystyrir na fydd y bwriad yn cael unrhyw effaith andwyol na newidiadau i'r rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus a'r safonau parcio ac yn cydymffurfio â pholisïau TRA 2 a TRA 4 y CDLl ar y Cyd a NCT 18.

**Llifogydd, Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.24 Mae'r rhan fwyaf gorllewinol o safle'r cynnig yn dod o fewn Parth C2 o'r Map Cyngor Datblygu (DAMs) a Pharth Llifogydd 3 Môr y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP). Diffinnir cyfleuster rheoli gwastraff anadweithiol fel datblygiad llai agored i niwed at ddibenion NCT 15 felly gall y defnydd arfaethedig fod yn dderbyniol os yw'r cynnig yn cydymffurfio â'r profion cyfiawnhau a gynhwysir yn NCT 15.

5.25 Mae'r safle dan sylw yn chwarel weithredol ar hyn o bryd yn amodol ar amodau cynllunio sy'n gofyn am adfer y safle erbyn 2044, neu pe cyfyd sefyllfa o weithrediadau mwynau yn dod i ben yn gynt. Yn y senario benodol hon, mae'r bwriad ar gyfer gweithrediad dros dro a fyddai'n defnyddio'r isadeiledd chwarel presennol. Fel y trafodwyd yn gynharach, bydd y cynnig yn cael ei gyfyngu dros dro ac amser a bydd yn dod i ben os bydd gweithrediadau mwynol y chwarel yn dod i ben yn gynamserol fel nad yw'n cyfyngu nac yn oedi gwaith adfer y safle. Felly, gellir ystyried y tir dan sylw yn Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen (PDL) tra bod y chwarel yn parhau i fod yn weithredol ac nid yw'r angen i adfer y safle i statws tir glas wedi'i wireddu, ac felly, nid yw'n tanseilio'r prawf yn NCT 15.

5.26 Cyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) gyda'r cynnig ac fe'i haseswyd gan CNC. Mae CNC wedi cadarnhau bod y wybodaeth yn yr FCA yn dangos bod y cynnig yn cydymffurfio â NCT 15 o ran rheoli risgiau llifogydd gan nodi bod y safle eisoes yn elwa o ddefnydd llai agored i niwed. Mae'r datblygiad hefyd yn cydymffurfio â'r profion cyfiawnhad eraill gan ei fod yn cydymffurfio â'r holl bolisïau eraill o fewn y cynllun lleol fel y trafodwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

5.27 Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion hydrolegol a pherygl llifogydd ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisïau AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 6 a MWYN 3 o'r CDLl ar y Cyd.

**Materion Ecolegol a Bioamrywiaeth**

5.28 Mae safle'r cais arfaethedig wedi'i leoli'n agos at y dynodiadau ecolegol isod:

- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion
- Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Glaslyn

5.29 Gan fod y bwriad mewn chwarel bresennol a gweithredol, ni fydd colled uniongyrchol o unrhyw gynefin(oedd). Mae swyddog bioamrywiaeth yr awdurdod lleol wedi nodi bod rhan o'r chwarel yn rhan o lwybr hedfan ar gyfer yr ystlum Bedol Leiaf ac yn argymell dim llifoleuadau ychwanegol na goleuadau allanol a fyddai'n creu rhwystr i'w llwybrau hedfan.

5.30 Yng ngoleuni sylwadau'r Uned Bioamrywiaeth a CNC, bydd angen amodau cyn cychwyn datblygu ar gyfer yr isod:

- Cynllun goleuo i osgoi unrhyw effeithiau ar lwybrau hedfan ystlumod
- Cynllun Atal Llygredd i sicrhau bod pob mesur yn cael ei gymryd i osgoi unrhyw lygredd rhag mynd i gyrsiau dŵr a'r Glaslyn.

Yn ogystal â'r amodau hyn a argymhellir, byddai'r datblygiad yn destun amod sy'n gofyn am fonitro a rheoli rhywogaethau planhigion ymledol ar gyfer cyfnod y caniatâd.

5.31 Ar 7 Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n ymdrin ag isadeiledd gwyrdd, gwerth net i fioamrywiaeth, y warchodaeth a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd. Ni chyflwynwyd datganiad isadeiledd gwyrdd gyda'r newidiadau arfaethedig ond gellir rhoi amod mesurau gwella bioamrywiaeth ar y caniatâd. I'r perwyl hwn, mae newidiadau i PCC wedi cael eu hystyried ac, yn yr achos hwn, nid ydynt yn codi unrhyw faterion newydd sydd ag unrhyw ddylanwad materol ar yr argymhelliad.

5.32 Wrth ystyried yr uchod, mae'r cynnig yn dderbyniol yn amodol ar y mesurau lliniaru priodol ac yn cydymffurfio â pholisïau AMG 5, AMG 6, PS 19 o'r CDLl ar y Cyd a NCT 5.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

5.33 Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y’u diwygiwyd), mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gynnal y prawf Effeithiau Arwyddocaol Tebygol ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Mae'r Uned Bioamrywiaeth wedi sgrinio'r bwriad ac yn cytuno nad oes effeithiau arwyddocaol tebygol (LSE) ar unrhyw un o'r cynefinoedd cymwys o fewn yr ACA neu'r SoDdGA gan fod y cynnig o fewn chwarel weithredol ac mae'n annhebygol y bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar nodweddion yr ACA neu'r SoDdGA, yn amodol ar yr amodau priodol ar gyfer mesurau lliniaru. O ystyried y wybodaeth hon, mae CNC wedi cytuno nad oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd llawn.

**Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol**

5.34 Nid oes nodweddion treftadaeth dynodedig yn y chwarel, a'r agosaf yw Heneb Hynafol Gofrestredig 'Anheddiad Tŷ'n y Berllan' (rhif ME096) o fewn 470m (tua'r de) i'r dwyrain o ffin y cynnig. Mae ardal y cais o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Aberglaslyn.

5.35 Fel y trafodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, byddai'r bwriad yn ymwneud â mân newidiadau ffisegol i'r safle. Ni fydd y bwriad yn arwain at unrhyw effaith weledol fyddai'n sylweddol wahanol i effaith gweithrediadau mwynau a ganiateir yn Chwarel Garth ar hyn o bryd. Gan hynny, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn effeithio’n sylweddol ar y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol na'r Heneb Hynafol Gofrestredig.

5.36 Ystyrir na fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi a heb eu dynodi ac felly, mae'n cydymffurfio â pholisïau PS20, AT 1 ac AT 4 y CDLl ar y Cyd.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.37 Mae Maen Prawf 1 (a) polisi strategol PS 1 yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am "ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy’n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy"; Yn yr achos hwn,

nid yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw newidiadau ffisegol i'r safle na newidiadau i'r gweithlu presennol.

5.38 Mae Diagram 5: Polisi PS 1 Canllaw Cynllunio Atodol 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' yn ymhelaethu ar ofynion polisi PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig'. Gan fod y bwriad yn gyfystyr â phroses/defnydd diwydiannol heb unrhyw arwynebedd llawr/50 o weithwyr ychwanegol, mae'r diagram yn nodi mai'r unig ofyniad yw ystyried maen prawf 4 a 5 o'r polisi sy'n gofyn am gynigion i ymgorffori cynlluniau arwyddion dwyieithog a defnyddio enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

5.39 O ystyried bod enw safle'r cais yn ddwyieithog a chydag arwyddion dwyieithog eisoes yn eu lle, ystyrir mai'r unig amod rhesymol i'w ddefnyddio dan yr amgylchiadau hyn yw cadw'r arwyddion ar gyfer cyfnod y datblygiad.

5.40 Ar sail natur y cais a'r dystiolaeth sydd i law, ni ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Felly, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a'r canllawiau a gynhwysir yn CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy.

**Materion Eraill:**

5.41 Mae CNC wedi cynghori eu bod angen gosod amod ar unrhyw ganiatâd yn gofyn am strategaeth adfer os bydd halogiad na nodwyd yn flaenorol yn cael ei ganfod ar y safle.

**6. Casgliad:**

6.1 Cais yw hwn am orsaf trosglwyddo gwastraff yn Chwarel Garth i dderbyn, storio, trin a phrosesu deunyddiau anadweithiol o Brosiect Darpariaeth Effaith Weledol Eryri (SVIP). Mae'r cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor ac yn cael ei gefnogi gan bolisïau GWA 1 a GWA 2 y CDLl ar y Cyd, PCC a NCT 21: Gwastraff.

6.2 Oherwydd lleoliad y cynnig mewn chwarel weithredol yn amodol ar reolaethau sefydledig ynghylch sŵn, llwch a materion amgylcheddol, ystyrir ei bod yn annhebygol i'r datblygiad arwain at unrhyw effaith andwyol ar fwynderau gweledol a phreswyl.

6.3 Ni fyddai'r bwriad yn cael unrhyw effaith negyddol o ran symudiadau traffig, ecoleg, risg llifogydd na threftadaeth.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau yn ymwneud â'r isod:

1. Datblygiad i ddechrau o fewn 12 mis o ddyddiad y caniatâd.
2. Datblygiad a ganiatawyd i ddod i ben ymhen 5 mlynedd o gyflwyno rhybudd dechrau. Bydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn dod i ben ar unwaith pe cyfyd sefyllfa o echdynnu a gweithio ar y mwynau ar y safle (Chwarel Garth) yn dod i ben yn gynnar neu'n gynamserol.
3. Yn unol â'r cynlluniau a'r manylion a gyflwynwyd.
4. Ni fydd unrhyw beth heblaw deunyddiau gwastraff anadweithiol a echdynnwyd o'r datblygiad SVIP, yn cael ei fewnforio i'r safle.
5. Bydd y gweithredwr/datblygwr yn darparu cofnod o'r deunydd a fewnforiwyd i'r ACLl o fewn 10 diwrnod i'r cais (gwybodaeth i gynnwys tarddiad, tunelli, disgrifiad o'r deunydd, dyddiad ac amseroedd y symud a'r canlyniad).
6. Cyfyngu ar hawliau GPDO perthnasol ar gyfer adeiladau, strwythurau, ffyrdd preifat, llifoleuadau, ffensys ac ati.
7. Marcio ffin yr ardal a ganiateir cyn dechrau'r gwaith.
8. Cytuno ar welliannau bioamrywiaeth cyn dechrau'r gwaith.

9. Copi o'r penderfyniad a'r cynlluniau a gymeradwywyd i'w dangos yn swyddfa safle Chwarel Garth.
10. Oriau gweithio (i gyd-fynd â'r caniatâd mwynau).
11. Storio olew, tanwydd a deunydd cemegol ar waelodion anhydraidd ac wedi'u bwndio.
12. Monitro'r safle am bresenoldeb rhywogaethau ymledol anfrodorol.
13. Cyfyngiadau lefel sŵn (lefelau penodol i gyd-fynd â'r caniatâd mwynau).
14. Cyfyngiadau lefelau sŵn ar gyfer gweithrediadau dros dro (lefelau penodol i gyd-fynd â'r caniatâd mwynau).
15. Monitro/arolwg sŵn yn flynyddol.
16. Cerbydau, offer a pheiriannau i weithredu o fewn y lefelau allyriadau sŵn mwyaf o fanyleb gwneuthurwr a ddim yn cael eu gweithredu heb sgriniau 'lladd' sain priodol, gwaith achos, caeadau a distewyddion.
17. Defnyddio larymau 'sŵn gwyn' ar gyfer peiriannau a cherbydau symudol.
18. Mesurau lliniaru llwch i'w cyflawni yn unol ag amod 23 o Ganiatâd Cynllunio Mwynau (C16/1385/05/MW).
19. Cadw arwyneb mynediad safle i'r briffordd yn lân a dim dyddodi mwd/malurion ar y briffordd.
20. Cadw cofnod amgylcheddol o gwynion llwch a sicrhau ei fod ar gael i'r ACLl o fewn 14 diwrnod i gais.
21. Bydd mewnforio deunydd gwastraff anadweithiol yn cael ei gyfyngu i ddefnyddio'r llwybrau cludo pwrpasol presennol.
22. Rhaid gosod llenni dros gerbydau llwythog sy'n gadael y safle neu eu trin i osgoi allyrru llwch (ar gyfer deunydd dan 75mm).
23. Amod i gadw arwyddion dwyieithog ar gyfer cyfnod y datblygiad.